Pennaeth/Headteacher: Mr Alex Lewis
admin@yggtonyrefail.rctcbc.cymru
Martin Crescent, Tonyrefail, CF39 8NT
01443 670319
https://www.ygg-tonyrefail.cymru/

# 🍂 CYLCHLYTHR YR YSGOL

**09.09.26**

## 👋 Neges gan y Pennaeth

Annwyl Rieni / Warchodwyr,

Croeso cynnes yn ôl i dymor a blwyddyn ysgol newydd!

Mae wedi bod yn bleser mawr gweld y plant yn dychwelyd i'r ysgol yn llawn brwdfrydedd ac yn barod i weld ffrindiau hen a newydd. Mae'r adeilad eisoes yn llawn egni, gwên ac awyrgylch cadarnhaol.

Hoffwn estyn croeso arbennig i'r teuluoedd newydd sydd wedi ymuno â chymuned Ysgol Gymraeg Tonyrefail eleni. Edrychwn ymlaen at ddod i'ch adnabod dros y misoedd nesaf.

Yn Ysgol Gymraeg Tonyrefail, rydym yn ymfalchïo yn ein hethos Gymraeg, gynhwysol a gofalgar. Ein nod yw gweithio mewn partneriaeth â chi er mwyn sicrhau'r profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl i bob plentyn.

🔔 Cofiwch: Mae gennym bolisi drws agored. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy e-bost, ffôn neu wyneb yn wyneb.

Ar ran y staff i gyd, hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus. Rydym yn gyffrous am y flwyddyn sydd o'n blaenau ac yn edrych ymlaen at greu atgofion arbennig gyda'n plant.

Cofion cynnes,
Mr Alex Lewis
*Pennaeth*

Pennaeth/Headteacher: Mr Alex Lewis
admin@yggtonyrefail.rctcbc.cymru
Martin Crescent, Tonyrefail, CF39 8NT
01443 670319
https://www.ygg-tonyrefail.cymru/

**Cyrraedd a chasglu o'r ysgol**

Hoffem atgoffa rhieni a gwarchodwyr y gall disgyblion ddod i mewn i'r ysgol o **8:50yb** ymlaen gyda'r diwrnod ysgol yn dechrau'n swyddogol am **9:00yb**. Mae cyrraedd yn brydlon yn bwysig iawn gan ei fod yn rhoi amser i'r plant ymgartrefu, paratoi ar gyfer y diwrnod a dechrau eu dysgu'n gadarnhaol ac yn dawel.

Bydd gatiau'r ysgol yn cael eu cloi am **9:10yb**. Os bydd disgybl yn cyrraedd ar ôl yr amser hwn, bydd angen iddo/iddi fynd i'r dderbynfa i gofrestru cyn ymuno â'i ddosbarth. Diolch am eich cefnogaeth wrth sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w ddiwrnod ysgol.

Hoffem hefyd bwysleisio pwysigrwydd peidio â chasglu plant yn gynnar o'r ysgol yn gyson oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol. Mae gadael yr ysgol cyn diwedd y dydd yn arwain at golli amser dysgu gwerthfawr ac yn aml yn amharu ar allu'r disgyblion i gwblhau tasgau a gweithgareddau pwysig yn y dosbarth. Nid yw hyn yn cynnwys disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) lle mae trefniadau penodol eisoes wedi'u cytuno rhwng y teulu a'r ysgol. Fel atgoffa, mae'r diwrnod ysgol yn gorffen am **3:10yp** yn y Dosbarth Derbyn ac am **3:30yp** ar draws gweddill yr ysgol.

⭐ **Pethau Pwysig**

🎯 **Clybiau'r Ysgol / School Clubs**

📅 Yn ailgychwyn wythnos nesaf / Restarting next week!

✅ Bydd pob clwb yn rhedeg yn syth ar ôl ysgol tan 4:30yh / pm

✅ Trefnwch gludiant a chasglu eich plentyn am 4:30yh / pm

✅ Bydd dolen Microsoft Forms yn cael ei hanfon adref i chi gofrestru'ch plentyn.

✅ Byddwn yn cyfyngu'r nifer ym mhob clwb i 25 gyda'r system gofrestru yn gweithio ar sail y cyntaf i'r felin caiff falu. Byddwn yn cadarnhau gyda chi erbyn diwedd yr wythnos os ydych wedi derbyn lle.

✅ Defnyddiwch y ffurflen i ddewis y clwb(iau) yr hoffech i'ch plentyn fynychu

Pennaeth/Headteacher: Mr Alex Lewis
admin@yggtonyrefail.rctcbc.cymru
Martin Crescent, Tonyrefail, CF39 8NT
01443 670319
https://www.ygg-tonyrefail.cymru/

❗ Pwysig / Important: Ni fydd plant nad ydynt wedi'u cofrestru ymlaen llaw yn gallu mynychu'r clybiau.

📋 Gweler y tabl isod am restr lawn y clybiau sydd ar gael.

| Clwb | I bwy | Diwrnod | Staff sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|
| Clwb yr Urdd | Blwyddyn 1-6 | Dydd Mawrth | Mrs Lancaster / Mrs Ritchie-Lewis |
| Chwaraeon | Blwyddyn 3 a 4 | Dydd Mercher | Mrs Samuel / Miss Thomas |
| Chwaraeon | Blwyddyn 5 a 6 | Dydd Mercher | Miss John / Mr Lewis |
| Clwb Gemau | Blwyddyn 4, 5 a 6 | Dydd Iau | Mr Phillips / Miss Hughes |

👨‍🏫 👩‍🏫 **Noson Cwrdd â'r Athro**

📅 **Dyddiad: Nos Lun 28ain o Fedi**

Rydym yn eich gwahodd i ddod i gyfarfod âg athro neu athrawes dosbarth eich plentyn.

Bydd y sesiwn yn cynnwys:

✅ Trosolwg o'r flwyddyn academaidd

✅ Syniadau ar gyfer cefnogi dysgu gartref

✅ Trefniadau ac amserlen y dosbarth

✅ Gwaith cartref a disgwyliadau

🕓 **Amseroedd y Sesiynau / Session Times**

**Sesiwn 1 / Session 1:** 4:00yh / pm

**Sesiwn 2 / Session 2:** 4:30yh / pm

Pennaeth/Headteacher: Mr Alex Lewis
admin@yggtonyrefail.rctcbc.cymru
Martin Crescent, Tonyrefail, CF39 8NT
01443 670319
https://www.ygg-tonyrefail.cymru/

Er mwyn cefnogi teuluoedd sydd â mwy nag un plentyn yn yr ysgol, bydd pob athro yn cynnal dwy sesiwn fel y gallwch fynychu mwy nag un cyflwyniad os oes angen. Bydd y sesiynau yn cael eu cynnal gan y staff ganlynol:

**Meithrin/Derbyn** – Miss Hughes a Miss John

**Blwyddyn 1/2** – Mrs Lancaster a Mrs Ritchie-Lewis

**Blwyddyn 3/4** – Mrs Samuel (Miss Doyle)

**Blwyddyn 4/5** – Mr Phillips

**Blwyddyn 5/6** – Miss Thomas

💙 Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r ysgol.

| **Dyddiadau Pwysig y Tymor** | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad** | **Digwyddiad** | **Pwy?** |
| Wythnos yn cychwyn 14/9 | Clybiau'n ailddechrau | Blynyddoedd 1-6 |
| 25/9 | Prynhawn goffi Macmillan | |
| 28/9 | Sesiynau Cwrdd a'r Athro | Meithrin i flwyddyn 6 |
| 12/10 | Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd – Dim Ysgol i ddisgyblion | Meithrin i flwyddyn 6 |
| 15/10 | Diwrnod Shwmae/Su'mae | |
| 16/10 | Gwisgo Coch i'r ysgol er mwyn nodi Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth | Meithrin i flwyddyn 6 |
| 22/10 | Chwistrell trwyn y ffliw | Meithrin i flwyddyn 6 |
| 26/10 – 30/10 | Hanner Tymor | |
| 9/11 a 10/11 | Nosweithiau Rhieni – manylion i ddilyn | Derbyn i flwyddyn 6 |
| 20/11 | Diwrnod Plant Mewn Angen – Disgyblion i wisgo dillad eu hun | Meithrin i flwyddyn 6 |

Pennaeth/Headteacher: Mr Alex Lewis
admin@yggtonyrefail.rctcbc.cymru
Martin Crescent, Tonyrefail, CF39 8NT
01443 670319
https://www.ygg-tonyrefail.cymru/

| | | |
|---|---|---|
| 09/12 | Cyngerdd Nadolig yn yr ysgol | Blynyddoedd 1 a 2 |
| 10/12 | Diwrnod Siwmperi Nadolig (neu eitem Nadolig) | Meithrin i flwyddyn 6 |
| 15/12 | Cyngerdd Nadolig yn Eglwys Dewi Sant | Blynyddoedd 3-6 |
| 17/12 | Cyngerdd Nadolig yn yr ysgol | Meithrin a Derbyn |
| 18/12 | Diwrnod olaf tymor | Meithrin – Blwyddyn 6 |

🌟 **Gwnewch y Pethau Bychain**

Diolch am eich cefnogaeth barhaus. Edrychwn ymlaen at flwyddyn wych arall yn Ysgol Gymraeg Tonyrefail.